Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Darlithydd - Addysgu Uwch

| | |
|---|---|
| **Coleg/Ysgol:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Ymarfer yr Adran Lawdriniaethau |
| **Cyflog:** | Gradd 08 £38,205 – £44,263 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) |
| **Oriau gwaith:** | Amser llawn |
| **Contract:** | Swydd barhaol yw hon |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod yn un o'r 30 o brifysgolion gorau, mae angen ar Brifysgol Abertawe weithlu â'r sgiliau amrywiol angenrheidiol i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr; ac i fod yn bwerdy ar gyfer economi'r rhanbarth ac yn rhyngwladol. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Mae Prifysgol Abertawe am benodi Addysgwr Ymarfer yr Adran Lawdriniaethau. Dyma gyfle unigryw i weithio gyda thîm ymroddedig ac i ddatblygu ymarferwyr annibynnol yr Adran Lawdriniaethau a all gyflawni Ymarfer yr Adran Lawdriniaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn yr amgylchedd amdriniaethol. Rydym yn cynnig rhaglen BSc (Anrhydedd) Ymarfer yr Adran Lawdriniaethau amser llawn sy'n cefnogi amrywiaeth eang o ddysgwyr.<br><br>Fel aelod o dîm ein cwrs, bydd gennych chi gyfle i gyfrannu at lunio a chyflawni'r cwricwlwm ar gyfer pob un o dair blynedd y rhaglen. Rydym yn blaenoriaethu datblygu cwricwlwm creadigol i sicrhau bod ein dysgwyr yn meddu ar yr holl sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddarparu gofal amdriniaethol proffesiynol yn ogystal â grymuso pobl eraill, creu amgylcheddau cefnogol ac arwain ym maes Ymarfer yr Adran Lawdriniaethau.<br><br>Mae ein tîm yn ymroddedig i addysg ryngbroffesiynol, gan weithio gyda chydweithwyr yn y Brifysgol ac mewn lleoliadau gwaith. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ac iechyd y cyhoedd yn nyfodol Ymarfer yr Adran Lawdriniaethau.<br><br>Mae ein cyrsiau wedi'u seilio'n gadarn ar dystiolaeth, felly rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n frwdfrydig am ymchwil. Mae ein myfyrwyr yn disgwyl y pwyslais angenrheidiol hwn ar ymchwil ac mae'n hanfodol ar gyfer gwella'r proffesiwn.<br><br>Ar y cyfan, mae'r swydd hon yn cynnig cyfle cyffrous i gyfrannu at dwf proffesiwn Ymarfer yr Adran Lawdriniaethau ac i ddatblygu darpar ymarferwyr a fydd yn gwneud gwahaniaeth ym mywydau eu cleifion. |
| **Llwybrau Gyrfa Academaidd** | Dyluniwyd cynllun y Llwybrau Gyrfa Academaidd i sicrhau bod cryfderau academaidd, boed mewn ymchwil, addysgu, profiad ehangach y myfyrwyr, arweinyddiaeth, neu arloesi ac ymgysylltu, i gyd yn cael eu cydnabod, eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo mewn modd priodol. Ceir tri llinyn academaidd uwch: Addysgu ac Ysgolheictod Uwch; Ymchwil Uwch; ac Arloesi ac Ymgysylltu Uwch.<br>Am ragor o wybodaeth am Lwybrau Gyrfa Academaidd, cliciwch yma. Mae'r rhain yn darparu lefelau perfformiad dangosol ar gyfer yr holl staff academaidd, a chânt eu defnyddio drwy gydol y broses recriwtio. Lle ceir dangosyddion rhifiadol, caiff y rhain eu hasesu gan roi sylw i'r cam gyrfaol, yr oriau gwaith ac ymrwymiadau eraill. Gall y rhain gynnwys amgylchiadau personol neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwaith y tu allan i'r gymuned academaidd, er enghraifft, mewn lleoliad diwydiannol neu glinigol. Mae croeso i chi nodi amgylchiadau unigol perthnasol megis saib yn eich gyrfa, cyfnodau o |

| | |
|---|---|
| | wyliau neu ar secondiad, neu absenoldebau eraill, y dylid eu hystyried, a sut mae'r rhain wedi effeithio ar ddatblygiad eich gyrfa. |
| **Prif Ddiben y Swydd: Addysgu ac Ysgolheictod Uwch** | 1. Darparu ac Adolygu Addysgu: Addysgu, asesu a sicrhau ansawdd modiwlau, neu elfennau cyfatebol eraill y portffolio a addysgir, yn effeithiol. Adolygu cynnwys a deunyddiau cyrsiau, a datblygu, llunio a diweddaru deunyddiau yn unol â safonau ansawdd.<br>2. Arloesedd ac Effaith Addysgu: Darparu addysgu arloesol a chyfoes sydd wedi'i lywio gan ymchwil neu ymarfer personol.<br>3. Parch: Cyfrannu at y gymuned academaidd ehangach gan ddangos effaith amlwg a chydnabyddiaeth gan ffynonellau mewnol ac allanol. Cyfrannu at effaith addysgu'r sefydliad.<br>4. Gwella Ymarfer: Cyfrifoldeb am ddatblygu ymarfer addysgu personol ac eraill. |
| **Rheoli** | 5. Cyfrannu at ein Gweithgareddau: Cymryd rhan wrth lunio penderfyniadau'r Coleg neu'r Brifysgol a chyfrannu at weithgareddau y tu hwnt i ymrwymiadau ymchwil, addysgu neu ysgolheictod uniongyrchol.<br>6. Cymryd rhan mewn Gweithgareddau Proffesiynol: Ymwneud â gweithgareddau proffesiynol sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth, drwy rwydweithio mewn cynadleddau neu ymwneud â grwpiau allanol.<br>7. Rheoli eich hun ac eraill: Cefnogi a galluogi datblygiad cydweithwyr, myfyrwyr a/neu chi eich hun. |
| **Research** | 8. Allbynnau a Gweithgarwch Ymchwil: Lledaenu canfyddiadau ymchwil drwy gyfryngau ysgrifenedig, llafar neu gyfryngau priodol eraill, yn y Brifysgol a'r tu allan iddi.<br>9. Prosiectau a Grantiau Ymchwil: Sicrhau'r adnoddau sy'n angenrheidiol i ategu gweithgarwch ymchwil/ysgolheictod/arloesi yn llwyddiannus fel y bo'n briodol i'r ddisgyblaeth. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 10. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chydweithredol.<br>11. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>12. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br><br>**Bydd yn rhaid darparu tystysgrif foddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau** |

| Meini Prawf y Fanyleb Person | Tystiolaeth nodweddiadol: |
|---|---|
| **Cymwysterau** | |
| 1. PhD mewn maes pwnc perthnasol neu radd a phrofiad neu gymhwyster proffesiynol perthnasol | *Aelodaeth siartredig o gorff proffesiynol, cofrestriad meddygol, etc.* |
| 2. Cymhwyster addysgu cydnabyddedig a fyddai'n arwain at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu ymrwymiad i gyflawni hyn | *Os nad oes gennych gymhwyster addysgu cydnabyddedig, bydd angen tystiolaeth o ymrwymiad i weithio tuag at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu gymhwyster cyfwerth.* |
| **Addysgu Uwch** | |
| 3. Tystiolaeth o addysgu ac asesu'n effeithiol | *adborth da a/neu welliant o ran dilyniant neu gyfraddau cadw myfyrwyr* |
| 4. Adolygu deunyddiau addysgu ac ymateb i adborth gan gydweithwyr neu fyfyrwyr. | *Cyfrifoldeb am nifer o fodiwlau israddedig, adolygu a diweddaru modiwl/rhannau o'r modiwl, neu greu modiwlau newydd o fewn 3 blynedd* |
| 5. Y gallu i fod yn diwtor effeithiol neu i oruchwylio prosiectau myfyrwyr gan arwain at ganlyniadau llwyddiannus | *Canlyniadau llwyddiannus* |

| | |
|---|---|
| 6. Tystiolaeth o arloesedd addysgu ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). | *- Llwyddiant wrth wella addysgu gan ddangos tystiolaeth o newid cadarnhaol ac adborth gan gymheiriaid.<br>- Tystiolaeth o ddatblygiad personol parhaus drwy DPP dros y tair blynedd diwethaf a thystiolaeth o effaith hyn ar addysgu.* |
| 7. Cyfrannu at y gymuned academaidd, yn fewnol neu'n allanol, â chydnabyddiaeth gan gymheiriaid. | *- Cymrodoriaeth o'r Academi Addysg Uwch neu gyfwerth.<br>- Tystiolaeth o gyfraniad ar lefel y Coleg a/neu'r sefydliad.<br>- Cydnabyddiaeth allanol drwy rôl arbenigol.* |
| **Ymchwil Graidd** | |
| 8. Tystiolaeth o ledaenu canfyddiadau ymchwil drwy gyfryngau ysgrifenedig, llafar neu gyfryngau priodol eraill, yn y sefydliad ac yn allanol, neu'r gallu i gyflawni hyn | *Tystiolaeth nodweddiadol fyddai dau gyhoeddiad o safon mewn pum mlynedd neu'r gallu i gyflawni hyn* |
| 9. Sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i ategu'r gweithgarwch ymchwil/ysgolheictod/arloesi | *Tystiolaeth o sicrhau adnoddau allanol sy'n berthnasol i'r maes dros gyfnod o bum mlynedd.* |
| **Rheoli Craidd** | |
| 10. Cyfrannu'n weithredol at benderfyniadau a gweithgareddau mewn uned neu sefydliad academaidd, y tu hwnt i ymrwymiadau ymchwil ac addysgu personol | *enghreifftiau sy'n dangos cyfraniad ac effaith personol* |
| ***Penodol i'r Pwnc*** | |
| 11. Meini prawf penodol i'r pwnc | *Wedi'ch cofrestru gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)*<br><br>*Cymhwyster cyn cofrestru Ymarfer yr Adran Lawdriniaethau* |

| **Y Gymraeg (Dileer fel y bo'n briodol)** |
|---|
| Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)<br>*e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da).Gallu defnyddio/dysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi).Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.*<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter | Stonewall TOP 100 EMPLOYER 2018 | HR EXCELLENCE IN RESEARCH | Race Equality Charter — ECU Race Charter